

# Llywodraethiant amgylcheddol yn y DU

## Papur briffio

Tachwedd 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7174**  
E-bost: **[Katy.Orford@senedd.cymru](mailto:Katy.Orford@senedd.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**  
Ymchwil y Senedd: **[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**  
Tanysgrifiwch: **[Cylchlythyr](http://cylchlythyr)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Llywodraethiant amgylcheddol yn y DU

## Papur briffio

Tachwedd 2023

---

**Awduron:**

Katy Orford a Sara Moran

Mae'r papur briffio hwn yn ddiweddariad o'n cyhoeddiad ym mis Gorffennaf 2021  
- Llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit



## Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>1</b>
-------------------------	----------

<b>Yn gryno</b> .....	<b>3</b>
-----------------------	----------

<b>Mecanweithiau llywodraethiant amgylcheddol</b> .....	<b>5</b>
---	----------

Swyddogaeth monitro ac adrodd .....	6
-------------------------------------	---

Swyddogaeth orfodi .....	7
--------------------------	---

Mynediad i ddinasyddion .....	9
-------------------------------	---

Cymhwyso llywodraethiant amgylcheddol.....	10
--	----

Egwyddorion amgylcheddol .....	11
--------------------------------	----

Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).....	12
---	----

Rhwymedigaethau rhyngwladol.....	13
----------------------------------	----

<b>Camau i fynd i'r afael â'r bwloch llywodraethiant yng Nghymru</b>	<b>14</b>
--	-----------

Mecanwaith deddfwriaethol.....	14
--------------------------------	----

Corff llywodraethiant amgylcheddol.....	14
---	----

Egwyddorion amgylcheddol.....	15
-------------------------------	----

Arfarniad opsiynau Llywodraeth Cymru.....	16
---	----

Trefniadau pontio .....	17
-------------------------	----

---



**Datblygiadau ledled y DU.....19**

Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ..... 19

Sefydlu .....19

Gwaith Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd.....21

**Safonau Amgylcheddol yr Alban .....21**

Sefydlu.....21

Gwaith ESS.....22

Egwyddorion amgylcheddol.....22

**Ffynonellau allweddol .....23**

## Cyflwyniad

Yn dilyn canlyniad y refferendwm ar yr UE, roedd **pryder eang** ar draws sector yr amgylchedd ynghylch bylchau mewn llywodraethiant amgylcheddol yn deillio o ymadawiad y DU â'r UE.

Mae'r system hon o lywodraethiant amgylcheddol yr UE yn cynnwys monitro ac adrodd ar weithredu cyfraith amgylcheddol gan Aelod-wladwriaethau, cael cwynion gan ddinasyddion, a chymryd camau gorfodi. Mae hyn yn cynnwys y gallu i godi dirwyon ar aelod-wladwriaethau y canfyddir eu bod yn torri cyfraith yr UE.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder yr UE (y Llys Cyfiawnder), felly, wedi chwarae rhan wrth lywodraethu'r broses o roi deddfau amgylcheddol sy'n deillio o'r UE ar waith ledled y DU, ac wrth ddatrys anghydfodau amgylcheddol trawsffiniol rhwng y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill.

Y tu allan i'r UE, mae gwledydd unigol y DU wedi bod yn datblygu trefniadau llywodraethiant amgylcheddol domestig ar wahân. Mae **Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd** wedi ei sefydlu ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a **Safonau Amgylcheddol yr Alban** wedi ei sefydlu ar gyfer yr Alban (Blwch 1). Nid yw Cymru wedi sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol eto ond mae ganddi **Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro i Gymru** (yr Asesydd Dros Dro). Mae'r Asesydd Dros Dro wedi cael y dasg o asesu gweithrediad cyfraith amgylcheddol, ond mae rhanddeiliaid amgylcheddol yn dadlau bod y rôl hon ymhell o fod yn llenwi'r bwlch llywodraethiant. Mae Llywodraeth Cymru **wedi ymrwymo** i gyflwyno Bil i sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru yn ystod tymor y Senedd hon.

Mae grwpiau amgylcheddol Cymru wedi bod yn galw am weithredu i fynd i'r afael â'r 'bwlch llywodraethiant,' gan ofni y gallai arwain at niwed amgylcheddol gyda gallu cyfyngedig i wneud iawn. **Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn dadlau** bellach mai Cymru sydd â'r strwythurau llywodraethiant amgylcheddol gwannaf yng ngorllewin Ewrop.

Mae'r papur briffio hwn yn archwilio'r system llywodraethiant amgylcheddol y mae'r DU wedi'i gadael, a chamau gweithredu ledled y DU i sefydlu trefniadau domestig.

## **Blwch 1: Crynodeb: Datblygiadau ledled y DU (ym mis Tachwedd 2023)**

### **Cymru:**

- Yn 2018 **ymrwymodd Llywodraeth flaenorol Cymru** y byddai'n "manteisio ar y cyfle deddfwriaethol priodol cyntaf i gynnwys yr egwyddorion amgylcheddol mewn cyfraith a chau'r bwlch llywodraethu." Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddeddfwriaeth wedi'i chyflwyno, hyd yn hyn. **Cynhaliwyd ymgynghoriad yn 2019** yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru. Ers hynny, **mae Grŵp Tasg Rhanddeiliaid wedi darparu argymhellion pellach** y gwnaeth **Llywodraeth flaenorol Cymru ymateb iddynt** ym mis Tachwedd 2020.
- Mae sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol yn un o ymrwymadau'r **Rhaglen Lywodraethu** (2021-26). Nid yw **Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24** yn cynnwys Bil o'r fath. Yn hytrach, ymrwymodd y Prif Weinidog i gyflwyno deddfwriaeth y tymor Senedd hwn, ac mae Papur Gwyn yn cael ei ragweld ym mis Ionawr 2024 ar sefydlu corff yn ogystal â thargedau natur. Yn y cyfamser, cafodd Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro ar gyfer Cymru **ei phenodi ym mis Chwefror 2021**, ac mae'n parhau â'i rôl yn asesu gweithrediad cyfraith amgylcheddol.

### **Lloegr a Gogledd Iwerddon:**

- Mae pwerau i **sefydlu Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd** wedi'u cynnwys yn **Neddf yr Amgylchedd 2021**. **Cafodd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd** ei sefydlu'n gyfreithiol ar 17 Tachwedd 2021. Cyn hyn, sefydlwyd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd dros dro i baratoi ar gyfer y pwerau cyfreithiol. Mae'r swyddfa'n berthnasol i Loegr a Gogledd Iwerddon, yn bennaf. Mae ganddi awdurdodaeth yng Nghymru mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol heb ei datganoli yn unig. At hynny, mae Deddf 2021 yn rhestru **egwyddorion yr amgylchedd** ac yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i baratoi datganiad polisi ar yr egwyddorion hynny ar gyfer Lloegr.

**Yr Alban:**

- Mae pwerau i sefydlu **Safonau Amgylcheddol yr Alban** yn cael eu cynnwys yn y **Neddf y DU yn Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021**. Lansiodd Safonau Amgylcheddol yr Alban yn swyddogol ar 1 Hydref 2021, ac fe'i sefydlwyd dros gyfnod o naw mis. Roedd corff interim yn rhagflaenu'r swyddfa statudol. At hynny, mae'r Ddeddf yn rhestru egwyddorion amgylcheddol y mae'n rhaid i Weinidogion yr Alban roi sylw dyledus iddynt wrth lunio polisiau.

## Yn gryno

**1. Beth yw system llywodraethiant amgylcheddol yr UE?**

Mae sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd yn monitro sut mae cyfraith amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei gweithredu gan Aelod-wladwriaethau. Maent yn cael cwynion gan ddinasyddion a gallant gymryd camau gorfodi yn erbyn Aelod-wladwriaethau y canfyddir eu bod yn torri cyfraith amgylcheddol yr UE.

Mae egwyddorion amgylcheddol craidd y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (neu TFEU) yn cael eu cymhwyso wrth ddatblygu a dehongli cyfraith yr UE i sicrhau bod safonau amgylcheddol uchel yn llifo drwy'r UE.

**2. Beth yw'r broblem?**

Nid yw system llywodraethiant amgylcheddol yr UE, gan gynnwys egwyddorion perthnasol, yn gymwys mwyach yn y DU, ar ôl iddi adael yr UE.

Ar ôl gadael yr UE, roedd rhanddeiliaid amgylcheddol yn ofni y gallai'r 'bwlch llywodraethiant amgylcheddol' hwn arwain at niwed amgylcheddol oherwydd iawndal cyfyngedig mewn achosion lle nad oedd llywodraethau'r DU yn gweithredu deddfwriaeth yn briodol.

Mae cyrff llywodraethiant amgylcheddol statudol domestig wedi'u sefydlu ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, a'r Alban. Fodd bynnag, yng Nghymru, nid oes deddfwriaeth wedi'i chyflwyno eto i sefydlu corff o'r fath.



### 3. Beth y mae rhanddeiliaid yn galw amdano?

Mae rhanddeiliaid amgylcheddol yn galw am gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol Cymru fel mater o flaenoriaeth, er mwyn sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol. Maen nhw'n dadlau y dylai fod yn annibynnol ar y llywodraeth, a bod ganddynt fecanwaith syml a rhad i ddinasyddion godi cwynion a swyddogaethau monitro a gorfodi cadarn. Yn ei hanfod, byddai'n dwyn llywodraethau a chyrrff cyhoeddus i gyfrif am eu gweithrediad o gyfraith amgylcheddol.

Mae galwadau am restru egwyddorion amgylcheddol craidd yr UE ar wyneb Bil Cymru, gydag amcan trosfwaol i sicrhau lefel uchel o warchodaeth amgylcheddol.

### 4. Pa gynnydd a wnaed hyd yma?

Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru ymgynghoriad yn 2019. Wedi hynny, sefydlwyd tasglu rhanddeiliaid i ddarparu argymhellion pellach.

Ni sefydlwyd unrhyw system newydd cyn diwedd cyfnod pontio Brexit, felly sefydlodd Llywodraeth Cymru drefniadau dros dro (Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro i Gymru). Mae rhanddeiliaid wedi dweud nad yw'r rhain yn mynd i'r afael â'r bwlch llywodraethiant amgylcheddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn cyhoeddi Papur Gwyn ar gyfer Bil ym mis Ionawr 2024.

## Mecanweithiau llywodraethiant amgylcheddol

Mae'r adran hon yn rhoi cefndir i lywodraethiant ac egwyddorion amgylcheddol yr UE, sef y gyfundrefn yr gadawodd y DU yn 2020. At hynny, mae'n archwilio swyddogaethau domestig presennol yng Nghymru er mwyn pennu bylchau sydd wedi codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

Ers y 1970au, mae trefniadau **llywodraethiant amgylcheddol** Aelod-wladwriaethau'r UE wedi'u disodli'n raddol gan gyfraith a mecanweithiau'r UE. Mae cytundebau UE olynol wedi cynnwys ymrwymadau newydd gyda'r bwriad o hyrwyddo nod yr UE o greu polisi amgylcheddol cyffredin. Ei **nodau presennol**, sydd wedi'u hamlinellu yn y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yw:

- Cynnal, gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd;
- diogelu iechyd dynol;
- sicrhau defnydd doeth a rhesymegol o adnoddau naturiol; a
- hyrwyddo mesurau rhyngwladol i frwydro yn erbyn problemau rhanbarthol neu fyd-eang, gan gynnwys brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Mae gan sefydliadau'r UE **rôl oruchwyllo**, i sicrhau cydymffurfiaeth Aelod-wladwriaethau â chyfraith amgylcheddol yr UE. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys monitro ac adrodd ar weithredu cyfraith amgylcheddol, cael cwynion gan ddinasyddion, a chymryd camau gorfodi, megis achosion tor-rheol.

At hynny, mae'r UE hefyd yn cynnal gwahanol fathau o adolygiadau o bolisi a deddfwriaeth amgylcheddol, megis:

- Proses adolygu dreigl i sicrhau bod deddfwriaeth amgylcheddol yn addas at y diben (sef y **rhaglen 'Ffitrwydd a Pherfformiad Rheoleiddiol' neu REFIT**); a hefyd
- **Adolygiad Gweithredu Amgylcheddol** 2017 a 2019, a oedd yn manylu ar y prif heriau a chyfleoedd ar gyfer gweithredu deddfwriaeth amgylcheddol ar gyfer Aelod-wladwriaethau.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgyngoriad cyhoeddus yn 2019** yn ceisio barn ar y canlynol:

- Bylchau mewn egwyddorion amgylcheddol a llywodraethiant yng Nghymru sy'n deillio o ymadawriad y DU â'r UE; a hefyd
- y ffordd orau o ddarparu fframwaith llywodraethiant sy'n cyd-fynd â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**.

Bu Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd yn archwilio'r materion hyn yn ystod dau ymchwiliad, a gynhaliwyd **yn 2018** ac **yn 2019**.

Yn ystod ymchwiliadau'r Pwyllgor hwn, roedd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid yn eiriol dros ddeddfwriaeth sylfaenol Cymru i sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol domestig yn ei le. Gwnaethant alw ar y corff i fod yn annibynnol ar y llywodraeth, bod ganddo fecanwaith syml a rhad i ddinasyddion godi cwynion a hefyd swyddogaethau monitro a gorfodi cadarn. At hynny, roedd rhanddeiliaid yn argymhell y dylai egwyddorion amgylcheddol craidd yr UE gael eu rhestru'n benodol ar wyneb y Bil.

## Swyddogaeth monitro ac adrodd

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn monitro gweithrediad cyfraith amgylcheddol yr UE. Mae'n defnyddio dangosyddion cenedlaethol ac adroddiadau gweithredu i wneud hyn. Er enghraifft, bob chwe blynedd mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau adrodd ar statws cadwraeth y cynefinoedd a'r rhywogaethau a nodir yn y **Cyfarwyddeb Cynefinoedd** er mwyn dangos tystiolaeth o weithredu'r Gyfarwyddeb. Mae adroddiadau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gynnydd yn darparu data a sail ar gyfer dwyn llywodraethau Aelod-wladwriaethau i gyfrif o ran gweithredu deddfwriaeth amgylcheddol.

Mae yna ofynion monitro ac adrodd domestig yng Nghymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, dangosyddion cenedlaethol (a ysgrifennwyd gan Weinidogion Cymru), yr amcanion llesiant a datganiadau (gan gyrff cyhoeddus Cymru), adroddiad blynyddol llesiant Cymru (gan Weinidogion Cymru) ac Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (neu SoNaRR) (gan Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae rhestr fwy cynhwysfawr ar dudalennau 25-26 **ymgynghoriad 2019 Llywodraeth Cymru**.

**Gwnaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ddod i'r casgliad yn 2019** bod y gofynion monitro ac adrodd o dan gyfraith bresennol Cymru wedi'u cynllunio at ddiben gwahanol i ddiben y Comisiwn

Ewropeaidd. Gwnaeth ddatgan, “er bod y rhain yn ategu gofynion presennol yr UE, nid ydynt yn darparu trefn ddigonol yn eu lle.” Dadleuodd y Pwyllgor, oni bai bod gofynion adrodd cadarn a phriodol yn cael eu rhoi ar waith ar ôl ymadael â'r UE, y gallai goruchwyliaeth a chraffu effeithiol ar y modd y caiff cyfraith amgylcheddol Cymru ei rhoi ar waith fod yn gyfyngedig.

O ran casglu data, daeth y Pwyllgor i'r casgliad hefyd fod manteision helaeth yn gysylltiedig ag aelodaeth y DU o **Asiantaeth yr Amgylchedd Ewropeaidd**. Nid yw'r DU yn aelod o'r asiantaeth honno, erbyn hyn. At hynny, roedd gan y Pwyllgor bryderon ynghylch gallu ac arbenigedd yng Nghymru, a ledled y DU, i efelychu arbenigedd technegol sefydliadau'r UE.

## Swyddogaeth orfodi

Lle nad yw Aelod-wladwriaeth wedi cydymffurfio â chyfraith yr UE, gall y Comisiwn Ewropeaidd gymryd camau gorfodi. Gall y broses hon arwain at gyfeirio'r mater i **Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd**. Dim ond nifer fach o achosion sy'n cael eu clywed gan y llys hwnnw, gan y dylai troi at y llysoedd fod yn ddull gorfodi terfynol. Mae sawl ffordd o ddwyn achos gerbron Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd. Gwnaeth Llywodraeth Cymru **amlinellu'r rhain** yn 2019:

- Atgyfeiriad gan lysoedd cenedlaethol Aelod-wladwriaethau ar ddehongli cyfraith yr UE;
- drwy'r Comisiwn Ewropeaidd yn dwyn achos yn erbyn gwladwriaeth yr UE ynghylch unrhyw achos o dorri ei rwymedigaethau i'r UE;
- drwy un o wladwriaethau'r UE yn mynd ag Aelod-wladwriaeth arall i'r llys; neu
- gall y llys gynnal adolygiad barnwrol o gyfraith yr UE. Mae hyn yn golygu bod ganddo'r pŵer i adolygu Rheoliadau a Chyfarwyddebau'r UE a gwneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â Chytuniadau'r UE ac egwyddorion cyffredinol y gyfraith.

Pan ganfyddir bod Aelod-wladwriaeth wedi torri amodau, **mae'n bosibl y bydd y bydd yn ofynnol gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd** iddi gymryd y mesurau angenrheidiol i gydymffurfio â'r dyfarniad, gan gynnwys rhoi terfyn ar unwaith ar dorri amodau. Caiff hefyd godi dirwyon os nad yw'r Aelod-wladwriaeth wedi cydymffurfio â'i ddyfarniad cychwynnol, y pennir eu swm ar sail cynnig gan y Comisiwn.

Er enghraifft, yn 2016, **dyfarnodd y llys** bod y DU wedi methu â chyfyngu ar allyriadau o orsaf bŵer Aberddawan, sydd wedi'i lleoli ym Mro Morgannwg, a gorchymyn i'r DU dalu'r costau cyfreithiol cysylltiedig. Daeth y toriad i'r amlwg

yn dilyn ymholiadau'r Comisiwn fel rhan o'i waith monitro gweithfeydd hylosgi mawr. Canfuwyd fod yr orsaf yn llosgi glo, a gaeodd yn 2020 **yn allyrru** symiau anghyfreithlon o ocsidau nitrogen rhwng 2008 a 2011.

At hynny, gall y llys ddyfarnu ar anghydfodau amgylcheddol trawsffiniol rhwng Aelod-wladwriaethau, megis yn 2006 pan ddyfarnodd ar yr anghydfod ynghylch **gweithfeydd MOX** rhwng y DU ac Iwerddon. Roedd yr achos yn ymwneud â llygredd morol ym Môr Iwerddon trwy ollyngiad ymbelydrol o'r gwaith, sydd wedi'i leoli ar safle niwclear Sellafield y DU.

At hynny, gall y llys gymryd camau yn erbyn sefydliad, corff, swyddfa neu asiantaeth yr UE am ddirymu mesur sy'n groes i gyfraith yr UE neu am eu methiant i weithredu.

**Adolygiad barnwrol**, ar hyn o bryd, yw'r mecanwaith allweddol yng Nghymru ar gyfer gwneud yn iawn yn erbyn cyrff cyhoeddus, ac mae ar gael i'r cyhoedd. Gall llysoedd adolygu pa mor gyfreithlon yw gweithredoedd corff cyhoeddus. Y prif bryder mewn achosion o'r fath yw nid a yw'r casgliad y daeth corff cyhoeddus iddo yn gywir, dim ond a ddilynwyd y weithdrefn gywir. Mae'r rhwymediau canlynol ar gael:

- Mae gorchmynion gorfodi yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff sy'n cael ei adolygu wneud rhywbeth;
- mae gorchmynion gwahardd yn atal neu'n atal y corff rhag gwneud rhywbeth; a hefyd
- mae gorchmynion dileu yn gosod penderfyniad corff o'r neilltu ar y sail ei fod yn annilys.

Mae yna nifer o **dribiwnlysoedd** yn system gyfiawnder y DU mewn strwythur tribiwnlysoedd dwy haen; Tribiwnlys Haen Gyntaf ac Uwch Dribiwnlys. Rhennir y ddau yn Siambrau. Mae pob Siambr yn cynnwys awdurdodaethau tebyg neu'n dwyn mathau tebyg o arbenigwyr at ei gilydd i wrando ar apeliadau. Mae Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn gwrando ar apeliadau gan ddinasyddion yn erbyn penderfyniadau a wneir gan adrannau neu asiantaethau'r llywodraeth. Mae'r Uwch Dribiwnlys yn bennaf – ond nid yn gyfan gwbl – yn adolygu ac yn penderfynu ar apeliadau sy'n codi o Dribiwnlys yr Haen Gyntaf.

**Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn 2019**, gwnaeth rhanddeiliaid adrodd am wendidau o fewn strwythurau gorfodi domestig a diffyg rhwymedi a sancsiwn am beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth. Roedd cefnogaeth ymhlith rhanddeiliaid i fecanwaith gorfodi



anffurfiol ar gyfer unrhyw gorff llywodraethu amgylcheddol newydd i alluogi datrys problemau drwy gydweithredu. Fodd bynnag, roeddent yn mynnu bod mecanwaith cadarn, ffurfiol, gan gynnwys achosion gorfodi a sancsiynau credadwy am barhau i beidio â chydymffurfio, yn hanfodol.

**Clywodd y Pwyllgor** gefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid i achosion yr ymchwiliwyd iddynt gan gorff llywodraethiant newydd gael eu cyfeirio at fforwm barnwrol priodol i'w hadolygu. Gwnaethant amlygu gwendid adolygiadau barnwrol gan ddadlau nad oedd hyn yn drefn briodol nac effeithiol yn lle'r gweithdrefnau torri cyfraith yr UE sydd ar gael i Lys Cyfiawnder yr UE. Galwodd nifer o rhanddeiliaid am sefydlu llys neu dribiwnlys amgylcheddol pwrpasol gydag arbenigwyr technegol o ystod o feysydd polisi amgylcheddol.

**Mynnodd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid** fod cosbau ariannol yn offeryn gorfodi hanfodol, a bod bygythiad dirwyon torri cyfraith yr UE yn allweddol i lwyddiant system yr UE. Awgrymodd rhai y gellid defnyddio refeniw o ddirwyon at ddibenion amgylcheddol. Roedd rhai yn cydnabod yr heriau ymarferol o ddyblygu system ddirwyo o fewn y cyd-destun domestig. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gallai system ddirwyo ar gyfer diffyg cydymffurfio parhaus â chyfraith amgylcheddol weithredu yng Nghymru.

## Mynediad i ddinasyddion

Gall dinasyddion yr UE **gysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd** mewn achosion o amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth yr UE. Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd ddisgresiwn i weithredu ar y wybodaeth a geir, a all arwain at achosion am dorri'r gyfraith gerbron Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (fel a ddisgrifir uchod). Mae **ymgyngoriad 2019 Llywodraeth Cymru** yn datgan bod hyn trwy wasanaeth rhad ac am ddim sy'n syml ac yn effeithlon.

Ar hyn o bryd, yng Nghymru ar lefel ddomestig:

- Gall yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus gael cwynion gan ddinasyddion am y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni swyddogaethau.
- At hynny, gall unigolion godi materion gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Gall dinasyddion gyflwyno deisebau i'r Senedd.
- Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus fod â gweithdrefnau cwyno sefydledig gan gynnwys ymrwymadau i ymchwilio'n llawn i gwynion am eu perfformiad ac ymateb iddynt.

### **Clywodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

gefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid i unrhyw gorff llywodraethiant newydd gael swyddogaeth gwyno i lenwi'r bwlch sy'n deillio o golli system gwynion dinasyddion yr UE. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at gyfyngiadau mecanweithiau domestig presennol fel ffordd o gael mynediad at gyfiawnder ar faterion amgylcheddol. Roedd consensws eang y dylai unrhyw fecanwaith cwynion newydd fod yn syml i'w ddefnyddio, heb gost a heb rwymedigaeth, yn unol â system yr UE.

Nid yw ymadawiad y DU â'r UE yn effeithio ar ei rhwymedigaethau rhyngwladol yn y maes hwn, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd wrth Wneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder mewn Materion Amgylcheddol (sef "**Confensiwn Aarhus**"), sef confensiwn y mae'r DU yn barti yn ei rinwedd ei hun. Mae'r **Confensiwn yn darparu** nifer o hawliau i unigolion a sefydliadau o ran yr amgylchedd, megis hawl dinasyddion i'r canlynol:

- Cael gwybodaeth amgylcheddol a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus;
- cymryd rhan mewn paratoi cynlluniau, rhaglenni, polisiau a deddfwriaeth a allai effeithio ar yr amgylchedd; a hefyd
- cael mynediad at weithdrefnau adolygu pan fydd eu hawliau o ran mynediad at wybodaeth neu gyfranogiad y cyhoedd wedi'u torri.

### **Cymhwyso llywodraethiant amgylcheddol**

Mae system llywodraethiant amgylcheddol yr UE yn berthnasol i lywodraethau Aelod-wladwriaethau'r UE o ran atebolrwydd a dwyn i gyfrif.

Cynigiodd Llywodraeth Cymru yn ei **ymgyngoriad yn 2019** y gallai cylch gwaith corff domestig newydd ymestyn i'r canlynol:

- Gweinidogion Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- awdurdodau lleol Cymru; a
- Gweinidogion y Goron (er enghraifft, yn gyson â'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016).

### **Clywodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

dystiolaeth gan nifer o rhanddeiliaid, y dylai pob corff cyhoeddus ddod o dan gwmpas unrhyw gorff llywodraethiant amgylcheddol domestig o ran atebolrwydd (ac y dylai hyn adlewyrchu'r cyrff a fydd yn cymhwyso'r egwyddorion

amgylcheddol). Safbwynt arall oedd mai prif rôl y corff newydd ddylai fod dim ond dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am beidio â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol sy'n deillio o'r UE.

Daeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig i'r casgliad y dylai cwmpas y corff llywodraethiant newydd ymestyn i bob corff cyhoeddus yng Nghymru y byddai'n ofynnol iddynt gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol. Dywedodd y Pwyllgor mai man cychwyn Llywodraeth Cymru ddylai fod y cyrff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Egwyddorion amgylcheddol

Mae Polisi **amgylcheddol yr UE** yn seiliedig ar ei egwyddorion amgylcheddol sy'n anelu at sicrhau safonau amgylcheddol uchel.

Mae Erthygl **191(2) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (neu TFEU)** yn rhestru pedair egwyddor amgylcheddol graidd yr UE fel a ganlyn:

- Yr egwyddor atal;
- yr egwyddor y dylai difrod amgylcheddol, fel blaenoriaeth, gael ei gywiro yn y tarddle;
- egwyddor "y llygrwr sy'n talu"; a hefyd
- yr egwyddor ragofalus.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn cymhwyso'r egwyddorion hyn wrth ddatblygu a dehongli deddfwriaeth yr UE. Yn hytrach na chymhwyso'n uniongyrchol i Aelod-wladwriaethau, mae egwyddorion amgylcheddol yr UE yn llifo drwy bolisiau a chyfreithiau'r UE.

Er nad yw'r egwyddorion wedi'u diffinio yn y TFEU, mae gan y Comisiwn Ewropeaidd **ganllawiau a gyhoeddwyd** ar gymhwyso'r egwyddor ragofalus. Diffinnir yr egwyddorion mewn manau eraill hefyd, gan gynnwys mewn cyfraith ryngwladol a chyfraith achosion. Ar ôl ymadael â'r UE, nid yw cyfraith yr UE a Chytuniadau'r UE (gan gynnwys y TFEU) yn gymwys, mwyach, yn y DU (er bod rhywfaint o ddeddfwriaeth amgylcheddol yr UE yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon yn rhinwedd Protocol **Iwerddon-Gogledd Iwerddon**) y Cytundeb Ymadael.

Nid yw Erthyglau perthnasol y TFEU, felly, gan gynnwys yr egwyddorion, yn berthnasol i'r DU, bellach. Fodd bynnag, mae'r DU wedi trosi deddfwriaeth amgylcheddol yr UE yn gyfraith ddomestig drwy **Deddf yr UE (Ymadael) 2018** (ond

nid y cytundebau). Mae'r ddeddfwriaeth hon bellach yn cael ei galw'n 'gyfraith yr UE a ddargedwir' ac fe'i datblygwyd yn wreiddiol yng nghyd-destun egwyddorion amgylcheddol yr UE tra'r oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth.

Mae egwyddorion amgylcheddol yr UE, felly, yn gymwys yn anuniongyrchol drwy gyfraith yr UE a ddargedwir, ond nid yw'r egwyddorion eu hunain wedi'u trosglwyddo'n uniongyrchol i gyfraith ddomestig o'r TFEU.

At hynny, gallai egwyddorion yr UE ddod i rym lle y cyfeiriwyd atynt yng **nghyfraith achosion yr UE a ddargedwir**.

## **Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

Mae **Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023** (neu "Ddeddf REUL") yn gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu. Ymhlith pethau eraill, mae'r Ddeddf yn gwneud y canlynol:

- Dirymu rhywfaint o gyfraith yr UE a ddargedwir fel ei fod yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023;
- dirymu hawliau sy'n deillio o'r UE ar 31 Rhagfyr 2023;
- ailenwi cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n weddill yn "gyfraith a gymathwyd" o 1 Ionawr 2024;
- rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru ddiwygio, diddymu a disodli cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith a gymathwyd yn haws;
- rhoi pwerau i Weinidogion ail-greu effaith goruchafiaeth cyfraith yr UE a ddargedwir i raddau cyfyngedig mewn perthynas ag offerynnau penodol;
- darparu rhagor o ddisgresiwn i lysoedd domestig ymadael â chyfraith achosion cyfraith yr UE a ddargedwir;
- diddymu'r 'Targed Effaith Busnes' fel rhan o ddiwygiadau rheoleiddiol eraill.

Pleidleisiodd y Senedd i **beidio â rhoi cydsyniad** ar gyfer y Ddeddf ddwy waith, ym mis Mawrth a mis Mehefin 2023.

Yn ystod taith y Bil drwy Senedd y DU, gwnaeth Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro i Gymru (gweler isod) **gyhoeddi adroddiad** ar effaith bosibl y Bil ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn sôn am "bryderon mawr" gan randdeiliaid y gallai deddfwriaeth gael ei rhoi o'r neilltu heb asesiad priodol na gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid. Cafodd yr adroddiad ei **groesawu gan Lywodraeth Cymru**.

## Rhwymedigaethau rhyngwladol

Mae rhwymedigaethau rhyngwladol yn cyfyngu ar y graddau y mae gwledydd y DU yn gallu pennu eu trefniadau llywodraethiant amgylcheddol yn y dyfodol.

Yn absenoldeb system lywodraethiant amgylcheddol yr UE, mae cyfraith amgylcheddol rhyngwladol wedi dod yn brif ffynhonnell allanol deddfwriaeth amgylcheddol y DU. Er enghraifft, mae'r DU yn barti i lawer o gytundebau amgylcheddol amlochrog mawr, megis Cytundeb **Paris y Cenhedloedd Unedig** a **fframwaith bioamrywiaeth byd-eang COP15**.

At hynny, mae'r DU wedi ymrwymo i gytundebau dwyochrog â gwladwriaethau eraill sy'n cynnwys rhwymedigaethau amgylcheddol, megis y **Cytundeb Masnach a Chydweithrediad rhwng** y DU a'r UE. Mae'r cytundeb hwnnw yn ymrwymo'r DU a'r UE i barchu rhai egwyddorion amgylcheddol ac yn cyfeirio at offerynnau rhyngwladol lluosog. At hynny, mae'n ymrwymo cyrff goruchwyllo'r DU a'r UE i gyfarfod yn rheolaidd ac i gydweithredu ar fonitro a gorfodi cyfraith yr amgylchedd a hinsawdd fel y mae'n ymwneud â diffyg atchweliad amgylcheddol.

Llywodraeth Cymru a'r Senedd sy'n gyfrifol am weithredu **rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig** o gymhwysedd, ac mae setliad datganoli Cymru yn gofyn am gadw at rwymedigaethau rhyngwladol mewn sawl ffordd. Er enghraifft, rhaid i ddeddfwriaeth y Senedd fod yn gydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol (adran 114(1)(d) o **Deddf Llywodraeth Cymru 2006**) ac mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau i ymyrryd i sicrhau cydymffurfiaid (adran 82 o Deddf Llywodraeth Cymru 2006). At hynny, **Cod Gweinidogol** Llywodraeth Cymru yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r gyfraith, sy'n cynnwys yn benodol gyfraith rhyngwladol a rhwymedigaethau cytuniadau.

Gall fframweithiau **cyffredin** gynnig llwybrau i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar safbwynt Llywodraeth y DU mewn materion rhyngwladol, gan gynnwys rhwymedigaethau yr ymrwymir iddynt. Er enghraifft, mae'r **fframwaith Sylweddau Peryglus (Cynllunio)** yn ymrwymo Llywodraeth y DU i ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig cyn cadarnhau cytundebau rhyngwladol newydd. Fodd bynnag, **mewn meysydd eraill** mae'r llywodraethau wedi cydnabod anghytundeb ynghylch i ba raddau y dylai'r llywodraethau datganoledig fod yn rhan o ddylanwadu ar drafodaethau rhyngwladol.



## Camau i fynd i'r afael â'r bwlch Llywodraethiant yng Nghymru

Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol ('y Grŵp Gorchwyl') yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2019. Mae'r adran hon yn amlinellu ei hargymhellion allweddol ac ymatebion Llywodraeth Cymru. At hynny, mae'n amlinellu mesurau dros dro – Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro i Gymru.

### Mecanwaith deddfwriaethol

Yn 2020 **argymhellodd y Grŵp Gorchwyl** gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i fynd i'r afael â'r bylchau mewn llywodraethiant ac egwyddorion amgylcheddol. Argymhellodd y dylai ymateb Cymreig fynd i'r afael â'r bylchau a fyddai'n codi ar ddiwedd cyfnod pontio Brexit (1 Ionawr 2021). Er bod Llywodraeth flaenorol Cymru wedi **mynegi ei bwriad** i ddeddfu i gau'r bwlch llywodraethiant, ni chafodd deddfwriaeth ei dwyn ymlaen.

### Corff llywodraethiant amgylcheddol

Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl gomisiwn ar gyfer yr amgylchedd i Gymru, yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, i oruchwylio gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Argymhellodd y dylai gael sicrwydd cyllid a chael ei archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol. Argymhellodd y dylai'r comisiwn gynhyrchu Adroddiad Blynyddol i'r Senedd.

Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl y dylai fod gan y comisiwn staff parhaol, ond gyda'r gallu i dynnu ar Banel Arbenigol lle bo angen. Dywedodd y dylid darparu swyddogaethau priodol i'r comisiwn i dderbyn ac ymateb i gwynion dinasyddion, ac i gynnal ymholiadau lle mae materion systemig yn cael eu nodi drwy ymchwiliadau a chraffu. At hynny, argymhellodd fod gan y comisiwn bwerau i uwchgyfeirio materion lle bo angen, er mwyn atal neu atal difrod amgylcheddol. Dywedodd y Grŵp Gorchwyl y dylai'r comisiwn allu mynd i'r afael â materion mewn modd priodol; o gynghori cyrff cyhoeddus yng Nghymru hyd at orfodi a defnyddio mecanweithiau adolygu amgylcheddol gerbron yr Uwch Dribiwnlys (gweler yr adran 'swyddogaeth orfodi' uchod). Amlygodd y dylai'r comisiwn weithio ar y cyd â

chyrff eraill.

Ffocws mawr yn nhrefodaethau'r Grŵp Gorchwyl oedd y sancsiynau angenrheidiol i lywio'r mater i benderfyniad rhwymol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth gadarn â deddfwriaeth amgylcheddol. Cytunodd mwyafrif y grŵp fod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â phenderfyniadau llys yn ymarferol. Teimlai, felly, y dylai fod yn ddigon i ymestyn y rhwymedïau arferol sydd ynghlwm wrth adolygiad barnwrol heb fod angen dirwyon, y dywedodd y byddent yn cael eu rhoi i'r Trysorlys.

Mae adroddiad y Grŵp Gorchwyl yn nodi bod rhwymedïau ar gyfer adolygiad barnwrol yn cynnwys dyfarnu iawndal mewn achosion priodol yn ogystal â gorchmynion a fyddai'n dileu penderfyniadau neu'n mandadu camau gweithredu. Byddai gan yr Uwch Dribiwnlys bwerau dirmyg llys arferol lle nad oedd penderfyniad yn cael ei barchu, fel y gallai cosbau ariannol gefnogi camau gorfodi. Nid oedd rhai aelodau o'r Grŵp Gorchwyl yn cytuno â'r dull hwn, a mynegwyd pryder ynghylch y pwerau sydd ar gael i'r Uwch Dribiwnlys.

Gwnaeth y Grŵp Gorchwyl dderbyn yn ei gyfanrwydd nad yw'r sancsiynau a gynigir yn ei adroddiad ar yr "un lefel" â'r rheini a oedd ar gael yn flaenorol o dan gyfundrefn yr UE.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru **dderbyn yr argymhellion hyn**, yn amodol ar ystyriaeth o'r gyllideb.

## **Egwyddorion amgylcheddol**

Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl y dylid darparu'n benodol ar gyfer pedair egwyddor amgylcheddol yr UE (unioni yn y ffynhonnell, y llygrwr sy'n talu, atal a rhagofalu) yn neddfwriaeth Cymru. Pwysleisiodd y dylai'r egwyddorion hyn gefnogi amcan trosfwaol a fyddai'n cynnwys y cysylltiadau rhwng polisi amgylcheddol a meysydd polisi eraill (integreiddio). O ran cymhwyso'r egwyddorion, argymhellodd y dylid gosod y rhain fel dyletswydd ar Weinidogion Cymru wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth.

Roedd yn argymhell y dylai'r ddyletswydd bresennol, sef **rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy** (neu SMNR) – sy'n berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru – gael ei hymestyn i grŵp ehangach o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru. Dywedodd fod angen rhagor o waith i bennu diffiniad cyrff cyhoeddus. Awgrymodd ddefnyddio'r diffiniad a ddarperir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ar gyfer cyrff sy'n cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â'r amgylchedd.

Amlygodd y Grŵp Gorchwyl y dylai **Hawliau Confensiwn Aarhus** (mynediad at wybodaeth, cyfranogiad y cyhoedd a mynediad at gyfiawnder) gael ei fynegi mewn unrhyw ddeddfwriaeth sydd ar ddod ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol, ochr yn ochr â'r egwyddorion a'r fframwaith llywodraethiant newydd.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion hyn yn amodol ar waith archwilio pellach ar gymhwyso egwyddor SMNR.

Mae mwy o fanylion am drafodaethau'r Grŵp Gorchwyl **yn ei adroddiad o fis Mawrth 2020**.

## Arfarniad opsiynau Llywodraeth Cymru

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **arfarniad opsiynau arfarniad opsiynau**, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 ar ôl ystyried argymhellion y Grŵp Gorchwyl ac ymgynghoriad 2019.

Roedd y canlynol ymhlith yr opsiynau:

- Gwneud dim;
- defnydd o gorff/cyrff presennol;
- sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol newydd i Gymru neu;
- defnyddio Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd Llywodraeth y DU (neu'r *OEP* – manylion isod).

Daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad mai sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol newydd i Gymru oedd yr opsiwn a ffeirir. Dywedodd ei fod yn cael ei gefnogi gan fwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'i fod yn sail i argymhellion y Grŵp Gorchwyl.

Ystyriodd yr arfarniad opsiynau nifer o fodelau gan gynnwys y model comisiynu a ffeirir gan y Grŵp Gorchwyl, ond hefyd model comisiynydd, tribiwnlys a Chorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Roedd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd, Lesley Griffiths AS, o'r farn mai model y comisiwn neu'r comisiynydd oedd y dull mwyaf priodol gan y gallai ymgymryd â'r ystod ofynnol o swyddogaethau gyda'r graddau angenrheidiol o annibyniaeth. Aeth ymlaen i ddweud y bydd cyflawni yn amodol ar argaeledd slot deddfwriaethol i ddwyn deddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol ymlaen, a'r broses o nodi'r gyllideb.

## Trefniadau pontio

Mabwysiadwyd mesurau dros dro, cyn sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol ac egwyddorion.

Ar ddiwedd 2020, aeth Llywodraeth Cymru ati i **recriwtio Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro**. Byddai rôl yr asesydd dros dro (fel y'i hysbysebwyd yn wreiddiol) wedi cynnwys derbyn a chofnodi cwynion yn ystod y cyfnod ar ôl y cyfnod pontio ac ailgyfeirio cwynion i gyrff eraill lle bo angen, ac uwchgyfeirio cwynion yr ystyriwyd eu bod yn ddifrifol neu'n rhai brys.

Fodd bynnag, ar 31 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **drefniadau newydd** ar gyfer asesydd dros dro. Roedd y canllawiau hyn yn awgrymu bod y rôl wedi newid o'r cyfrifoldebau gwreiddiol. Mae'r ffocws wedi symud o dderbyn ac uwchgyfeirio cwynion ynghylch achosion o dorri cyfraith amgylcheddol ac yn hytrach, "sut mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio".

Er mwyn cyflwyno her mewn perthynas â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, cynghorodd Llywodraeth Cymru ddinasyddion i ddefnyddio dulliau presennol o unioni domestig – er enghraifft, adolygiad barnwrol.

Ar 24 Chwefror 2021, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru** benodiad Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro Cymru am ddwy flynedd, gyda'r posibilrwydd o gael estyniad (mae'r rôl wedi'i hymestyn gan Lywodraeth Cymru am flwyddyn ychwanegol hyd at 2024). Mae'r Asesydd Dros Dro wedi bod yn cael cyflwyniadau gan randdeiliaid a'r cyhoedd lle mae materion canfyddedig ynghylch gweithrediad cyfraith amgylcheddol. Ei rôl yw cynhyrchu adroddiadau i Lywodraeth Cymru ar y materion hyn. Mae hi wedi **cyhoeddi un adroddiad** ar Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (manylir uchod).

Mae sector yr amgylchedd **yn pryderu** nad yw'r trefniadau dros dro yn llenwi'r bwlch llywodraethiant amgylcheddol. Mae'r sector wedi galw am Fil Cymreig i sefydlu corff llywodraethiant cwbl weithredol fel mater o flaenoriaeth. Daeth Cyswllt Amgylchedd Cymru **i'r casgliad a ganlyn**:

It is clear that the interim arrangements do not constitute a route to environmental justice nor do they provide a substitute for the oversight and enforcement role required to replace that provided by EU institutions, as recommended by the Task Group and accepted by the Minister.

Mae'r Asesydd Dros Dro wedi mynd i ddwy **sesiwn** o Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Chweched Senedd (yn 2022 a 2023). Roedd gan y

Pwyllgor bryderon ynghylch effeithiolrwydd y mesurau dros dro, a'r adnoddau a roddwyd ar eu cyfer. Yn dilyn sesiwn 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o adnoddau, ac ymrwymo i ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer y mesurau dros dro. Fodd bynnag, yn dilyn ei ail sesiwn, teimlai'r Pwyllgor nad oedd yr adnodd ychwanegol hwn ar gael mewn modd amserol i helpu'r Asesydd Dros Dro i lunio adroddiadau i Weinidogion Cymru. At hynny, roedd y Pwyllgor yn pryderu am ddiffyg monitro effaith. O ran trefniadau tymor hwy **daeth i'r casgliad a ganlyn:**

Mae saith mlynedd bellach wedi mynd heibio ers refferendwm yr UE, pan fynegodd y sector amgylcheddol bryderon am y tro cyntaf ynghylch y bwlch amgylcheddol, ac mae pum mlynedd wedi mynd heibio ers i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ddeddfu er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch hwnnw. Mae'r ffaith na fydd Bil yn cael ei gyflwyno ym mlwyddyn tri o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol yn golygu bod y corff newydd o leiaf ddwy flynedd i ffwrdd, yn ôl pob tebyg. Os nad yw'r corff newydd yn gwbl weithredol cyn diwedd cyfnod Llywodraeth Cymru mewn grym, bydd hynny'n fethiant anfaddeuol ar ei rhan.

O ran egwyddorion amgylcheddol cyn unrhyw ddeddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru, **ymrwymodd Llywodraeth flaenorol Cymru** parhau i gymhwyso pedair egwyddor amgylcheddol yr UE.



## Datblygiadau ledled y DU

Mae gwledydd y DU wedi bod yn datblygu trefniadau llywodraethiant amgylcheddol ar wahân yn eu lle. Mae Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd wedi ei sefydlu ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylcheddol yr Alban, yn yr Alban.

Gwnaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith **gynnal sesiwn dystiolaeth** gyda chynrychiolwyr o'r naill swyddfa a'r llall ym mis Mehefin 2023, i gael cipolwg ar sefydlu a gweithgareddau'r trefniadau llywodraethiant amgylcheddol parhaol mewn mannau eraill yn y DU. Y nod oedd dysgu gwersi cyn sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru, a nodi bylchau yng Nghymru yn absenoldeb corff o'r fath.

**Argymhellodd y Pwyllgor** y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r ddwy swyddfa i ddeall y gwersi a ddysgwyd o sefydlu eu cyrff priodol.

## Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd

### Sefydlu

---

Mae pwerau i **sefydlu Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd** wedi'u cynnwys yn Neddf yr Amgylchedd 2021.

Mae'r swyddfa honno yn berthnasol yn bennaf i Loegr a Gogledd Iwerddon, a dim ond mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol heb ei datganoli y mae ganddi awdurdodaeth yng Nghymru. Nid oedd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn eistedd ar adeg drafftio Bil yr Amgylchedd. Fel y cyfryw, datblygodd swyddogion Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ystod o ddarpariaethau Gogledd Iwerddon ar gyfer Bil yr Amgylchedd gyda DEFRA. Gwnaeth Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ymgynghori ar y materion hyn yn 2020-21.

Roedd Llywodraeth **y DU** wedi awgrymu y gallai Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd weithredu ledled y DU. Fodd bynnag, **dywedodd Llywodraeth flaenorol Cymru** nad oedd y model llywodraethiant arfaethedig yn ddull ymarferol i Gymru. Roedd yn dadlau ei fod yn anghydnaws â'r setliad datganoli a deddfwriaeth bresennol Cymru.

O ystyried na chafodd Deddf yr Amgylchedd 2021 ei gweithredu, ac na chafodd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ei sefydlu erbyn diwedd cyfnod pontio Brexit, sefydlodd DEFRA drefniadau trosiannol ar gyfer Lloegr i ddechrau. **Roedd y rhain yn cynnwys system** (a lansiwyd yn gynnar yn 2021) ar gyfer cofrestru cwynion yn erbyn cyrff cyhoeddus yr amheuir eu bod wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Roedd Ysgrifenyddiaeth Llywodraethiant Amgylcheddol Dros Dro o fewn DEFRA yn gweithredu dros dro i gynnal asesiadau cychwynnol o unrhyw gwynion. Yr oedd hyn o dan arweiniad **Y Fonesig Glenys Stacey, darpar Gadeirydd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, sef penodiad newydd**, yn ogystal ag aelodau eraill y Bwrdd, i sicrhau trosglwyddiad effeithiol i'r corff parhaol.

Yn dilyn hynny, sefydlwyd **Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd dros dro** ac roedd staff a oedd ar secondiad yn flaenorol o DEFRA yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y swyddfa honno. Cyn cael ei gosod ar sail statudol, roedd y swyddfa yn gallu sifftio a choladu cwynion, heb fynd i'r afael â nhw. Sefydlwyd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn gyfreithiol ar 17 Tachwedd 2021, ar ôl pasio y Deddf yr Amgylchedd 2021. Unwaith iddi ddod yn **endid cyfreithiol** dechreuodd baratoi ei dull strategol. Yna rhoddwyd ei bwerau cyfreithiol llawn iddi gan Senedd y DU ar 24 Ionawr 2022 (ar gyfer Lloegr) a 28 Chwefror 2022 (ar gyfer Gogledd Iwerddon).

Unwaith iddi ddod yn gwbl weithredol, roedd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn gallu adolygu'r holl gwynion a wnaed i'r corff interim a'i ragflaenydd, yr Ysgrifenyddiaeth Llywodraethiant Amgylcheddol Dros Dro.

Gall Swyddfa **Diogelu'r Amgylchedd** ddwyn y sefydliadau canlynol i gyfrif:

- Adrannau llywodraethau;
- gweinidogion llywodraethau;
- rheoleiddwyr;
- awdurdodau lleol; a
- rhai cyrff preifat, megis cwmnïau dŵr, ond dim ond mewn perthynas â'u pwerau a'u dyletswyddau cyhoeddus.

Mae'n gwneud hyn fel a ganlyn:

- Craffu ar Gynlluniau Gwella Amgylcheddol a thargedau;
- craffu ar gyfraith amgylcheddol;
- cynghori llywodraethau ar gyfraith amgylcheddol; a
- gorfodi yn erbyn methiannau i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

## Gwaith Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd

---

Mae darnau allweddol o waith a wneir gan y swyddfa yn cynnwys y canlynol:

- **Nodi methiannau posibl** gan DEFRA, Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol mewn perthynas â rheoleiddio gorlifoedd carthffosydd cyfun;
- craffu ar **gynlluniau a thargedau amgylcheddol Llywodraeth y DU** ar gyfer gwella natur, yn enwedig y gallu i gyflawni a chynnydd yn erbyn y cynllun amgylchedd 25 mlynedd;
- dylanwadu ar ddeddfwriaeth, gan gynnwys darparu **tystiolaeth i Bwyllgor y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio**, a **thystiolaeth i Bwyllgor Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2022 (neu'r Bil REUL)**;
- ymateb i ymgynghoriadau gan gynnwys ar **dargedau amgylcheddol, cynnydd net bioamrywiaeth a'r datganiad ar y cyd ar bysgodfeydd**; a hefyd
- cofnodi ac ymateb i **629 o ymholiadau ar wahân, ac 84 o gwynion** (ar 31 Mawrth 2023).

## Safonau Amgylcheddol yr Alban

### Sefydlu

---

Mae Deddf y DU yn Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021 yn cynnwys pwerau i sefydlu'r corff llywodraethiant amgylcheddol, Safonau **Amgylcheddol yr Alban** (neu ESS).

Cafodd **ESS ei lansio'n swyddogol** ar 1 Hydref 2021, gan gymryd naw mis i'w sefydlu. Ei ddiben yw craffu ar gyrff cyhoeddus i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol, a monitro effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol. Mae'n gallu cymryd sylwadau gan y cyhoedd a rhanddeiliaid a phenderfynu pa un i fynd ar ei drywydd.

Mae ESS yn cwmpasu pob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth yr Alban a'i hasiantaethau, yn ogystal â sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran awdurdodau cyhoeddus.

Mae ESS yn annibynnol ar Lywodraeth yr Alban, ac yn atebol i Senedd yr Alban.

Gall ESS **ymchwilio i gynrychioliadau yn ymwneud â'r canlynol**:

- A yw awdurdod cyhoeddus yn methu (neu wedi methu) â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol; ac
- effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol, neu sut y mae'n cael (neu wedi cael) ei gweithredu neu ei chymhwyso.

## Gwaith ESS

---

Mae sylwadau **a ddaw i law** yn cael eu sgrinio, ac os ydynt yn dderbyniol, yn cael **eu hystyried yn y lle cyntaf fel ymholiadau cyn-ymchwiliad**, y gellir naill ai eu symud i ymchwiliad llawn, eu datrys gyda'r awdurdod cyhoeddus priodol, neu eu cau.

At hynny, mae ESS yn ymgymryd â **gwaith monitro a dadansoddi**. Mae blaenoriaethau dadansoddol yn **faterion a nodwyd fel pryderon posibl**, ond yn rhai lle mae angen dadansoddiad pellach i ddeall yr achos(ion) a sut y gall penderfyniadau polisi a rheoleiddio gael effaith. Gall gwaith dadansoddol arwain at ymchwiliadau, dadansoddi pellach neu fonitro.

Mae ESS wedi **cwblhau ymchwiliad** i gynlluniau a dull Llywodraeth yr Alban o sicrhau cydymffurfiaeth yn y dyfodol â therfynau cyfreithiol ar lefelau nitrogen deuocsid. Mae ymchwiliad **pellach** i'r systemau ar waith, i gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni targedau newid hinsawdd yn barhaus.

## Egwyddorion amgylcheddol

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 cyflwyno dyletswydd ar Ysgrifennydd Gwladol y DU i baratoi **datganiad polisi** ar egwyddorion amgylcheddol, gyda'r nod o gyfrannu at warchod yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy. Mae'r datganiad polisi hwn yn berthnasol i Loegr yn unig. Rhaid i Weinidogion y Goron roi sylw dyledus i'r datganiad polisi wrth ddatblygu polisi. Y pum egwyddor amgylcheddol a restrir yn y Ddeddf yw:

- Y egwyddor y dylid integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisiâu;
- yr egwyddor o gamau ataliol i osgoi difrod amgylcheddol;
- yr egwyddor ragofalus i'r graddau y mae'n ymwneud â'r amgylchedd;
- yr egwyddor y dylid rhoi blaenoriaeth i gywiro difrod amgylcheddol yn y ffynhonnell; a hefyd
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

Mae'r rhestr hon yn deillio'n bennaf o egwyddorion craidd yr UE (a ddisgrifir uchod), gan ychwanegu'r egwyddor integreiddio.

Ar gyfer yr Alban, mae Deddf y DU yn Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021 yn cynnwys yr un pum egwyddor. O dan y Ddeddf mae'n rhaid i Weinidogion yr Alban roi **sylw dyledus i'r pum egwyddor arweiniol wrth ddatblygu polisi**. Yn ogystal, rhaid i awdurdod cyfrifol roi sylw dyledus i'r pum egwyddor wrth wneud unrhyw beth mewn perthynas â'r ddyletswydd o dan adran 1 o **Ddeddf Asesu Amgylcheddol (Yr Alban) 2005** (gofyniad ar gyfer asesiad amgylcheddol).

## Ffynonellau allweddol

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: **Adroddiad ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2022-23** (2023)

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: **Adroddiad ar weithredu mesurau interim diogelu'r amgylchedd (30 munud)** (2022)

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: **Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit** (2019)

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: **Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit** (2018)

Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol: **Adroddiad gan y Grŵp Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol ac ymateb Llywodraeth Cymru** (2020)

Llywodraeth Cymru: **Egwyddorion a threfniadau llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd** (2019)